

# Trosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe

maethu cymru Abertawe | foster wales Swansea

Cyngor Abertawe Swansea Council

# Pwy ydyn ni?

Ni yw Gwasanaeth Maethu Cyngor Abertawe.
Rydym yn gyfrifol am y plant sydd dan ein gofal.

Mae gennym ddegawdau o brofiad ac rydym yn ymfalchïo mewn darparu'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu byw gartref. Mae plant bob amser wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae Maethu Cymru Abertawe yn credu bod plant a phobl ifanc yn haeddu'r safon uchaf o ofal. Adeiladir ein hunig bwrpas ar y gred bod gan bob plentyn yr hawl i degwch a chyfle, yr hawl i freuddwydio, i edrych i'r dyfodol gyda gobaith.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â phawb sy'n ymwneud â bywyd y plentyn gan gynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol, cynrychiolwyr addysg a gweithwyr cymdeithasol, i sicrhau bod budd gorau'r plentyn yn cael ei fodloni.

Nid sefydliad o hirbell nad yw'n deall eich byd mohonom. Mae Maethu Cymru Abertawe yn cynnwys pobl go iawn sydd hefyd yn byw yn eich cymuned. Ni yw'r rhwydwaith cymorth lleol cyflawn o'ch cwmpas chi a'r plentyn. Rydym yn gwerthfawrogi pob un o'n gofalwyr maeth. Mae gennym rwydwaith mawr o ofalwyr maeth yn yr ardal y mae eu sgiliau, eu gwybodaeth, eu profiad a'u cefnogaeth yn ein galluogi i ddarparu'r canlyniadau gorau i blant.

**Gweithio gyda'n gilydd i greu dyfodol gwell i blant lleol**

# Eisoes yn ofalwr maeth?

Nod Maethu Cymru Abertawe yw cynyddu nifer y gofalwyr maeth sy'n gweithio gyda ni yn hytrach nag asiantaethau maethu annibynnol. Mae hyn er mwyn i ni allu darparu'r canlyniadau gorau i blant. Rydym yn adnabod ein gofalwyr mewnol yn dda iawn, o ran eu sgiliau, eu cryfderau a'u profiad. Mae hyn yn golygu y gallwn gael y pariad cywir ar gyfer y plant a'r gofalwyr hefyd. Yn anffodus wrth leoli plant gydag asiantaethau eraill, nid ydym yn adnabod y gofalwyr. Mae hefyd yn sicrhau y gellir buddsoddi unrhyw arbedion a gronnir gan ofalwyr sy'n trosglwyddo i ni mewn gwasanaethau cefnogol i'r plant a'r gofalwyr, gan gynnwys ymyrraeth seicolegol a therapiwtig gynnar.

Rydyn ni'n ymfalchïo mewn rhoi'r plant wrth galon popeth a wnawn a dyna pam rydyn ni'n cymryd agwedd gyfannol at eu hanghenion trwy weithio fel tîm o amgylch y plentyn. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â gweithwyr cymdeithasol y plant.

Mae buddion anfesuradwy i ofalwyr maeth a'r plant pan fyddwn yn gosod plant gyda'n gofalwyr mewnol ein hunain.

Dylai'r canllaw hwn roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch chi am y broses drosglwyddo. Os penderfynwch drosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe, byddwn yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i wneud y broses o ymuno â ni mor syml â phosibl.



# Pam trosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe?

Fel sefydliad nid-er-elw sy'n gyfrifol am y plant yn ein gofal, mae Maethu Cymru Abertawe yn credu mewn gweithio fel tîm gyda gofalwyr maeth i adeiladu dyfodol gwell i blant lleol trwy eu helpu i aros yn eu hardal leol.

Ni yw'r bobl go iawn yn eich ardal sydd eisoes yn cefnogi'r plant sydd angen gofal. Nid ydym yn gorfforaeth o hirbell, ddi-wyneb nad yw'n deall eich byd. Rydym yn wyneb cyfarwydd a chyfeillgar, ar gael, ac yn hygyrch pryd bynnag a lle bynnag y mae ein hangen arnoch. Rydyn ni'n bobl sy'n deall eich ffordd o fyw.

Rydyn ni am i'ch dyfodol maethu fod yn llwyddiant, felly rydyn ni'n cymryd amser a gofal i'ch paru gyda'r plentyn cywir i chi a'ch teulu. Credwn fod pariad gwell yn sicrhau lleoliadau mwy cynaliadwy, sefydlog, ac yn creu canlyniadau gwell i blant maeth a gofalwyr maeth fel ei gilydd. Lle bynnag y bydd eich dyfodol maethu yn mynd â chi, byddwn wrth eich ochr bob cam o'r ffordd gyda'r holl gefnogaeth, arbenigedd a hyfforddiant lleol ymroddedig y bydd eu hangen arnoch i greu gwell yfory i'r plant lleol sydd dan ein gofal heddiw. Dyna beth rydyn ni'n ei wneud. Dyma beth rydyn ni wastad wedi'i wneud.

Trwy gael tîm gofalwyr maeth angerddol ac ymroddedig yn fewnol, gallwn sicrhau bod yr holl arbedion ariannol ac amser yn cael eu harllwys drachefn i gefnogi plant a theuluoedd sydd ei angen.

Mae gofalwyr maeth sy'n gweithio gyda Maethu Cymru Abertawe yn ein helpu i ddeall yn well yr hyn sydd ei angen ar ein plant mewn gwirionedd. Yn ogystal, byddwn yn gweithio gyda chi i ddeall yr hyn sydd ei angen arnoch chi fel gofalwr maeth i fod y gorau y gallwch chi fod yn eich rôl. Mae'n ein galluogi i ymgorffori rhwydweithiau cymorth lleol ac annog cysylltiadau cadarnhaol ag ardal plentyn yn well, gan gynnwys eu haddysg a'u hamser gyda theulu biolegol a ffrindiau. Mae darparu'r hyn sydd ei angen arnoch i gefnogi'r plentyn yn y ffordd orau bosibl, yn golygu bod dyfodol gwell i bawb sy'n gysylltiedig â hynny. Trwy weithio'n uniongyrchol gyda ni - y bobl sy'n gyfrifol am y plant yn eich gofal - byddwn yn fwy gwybodus i sicrhau eich bod chi'n cael y cyngor, yr hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch i wneud hyn.

# Beth i'w ddisgwyl gennym ni?

## Ein cynnig

- Y gwasanaeth maethu mwyaf yn Abertawe gyda dros 140 o ofalwyr maeth lleol
- Cysylltir â gofalwyr maeth mewnol yn gyntaf am leoliadau
- Tîm profiadol ar ben arall y ffôn
- Ymweliadau rheolaidd a chefnogaeth helaeth gan weithiwr cymdeithasol ymroddedig
- Cefnogaeth 24/7
- Cynllun gefeillio lle gall gofalwyr newydd ennill cefnogaeth gan ofalwyr maeth profiadol
- Hyblygrwydd gyda'r gwahanol fathau o faethu sydd ar gael
- Hyfforddiant hyblyg, rheolaidd ac health
- Mynediad at wasanaeth therapi
- Paru a ystyrir
- Grwpiau cefnogi ar gyfer y teulu cyfan, gan gynnwys gweithgareddau rheolaidd am ddim i blant y gofalwyr eu hunain
- Lwfansau ariannol cystadleuol
- Lwfansau ychwanegol ar gyfer pen-blwyddi, gwyliau, gwyliau crefyddol a'r Nadolig
- Mae taliadau i faethu yn parhau hyd yn oed pan nad oes unrhyw blant yn cael eu lleoli. Os ydych ar gael i faethu yna byddwn yn sicrhau eich bod yn cael eich gwobrwyo'n ariannol
- Mynediad at weithiwr cyngor a chyfryngu annibynnol
- Cerdyn disgownt MAX y gellir ei ddefnyddio mewn atyniadau ymwelwyr a hamdden ledled y DU
- Cerdyn Pasbort i Hamdden - gostyngiadau mewn lleoliadau hamdden a diwylliant lleol
- Gweithgareddau/digwyddiadau cymdeithasol trwy gydol y flwyddyn ar gyfer yr aelwyd faethu gyfan
- Aelodaeth daledig i'r Rhwydwaith Maethu



# Rhesymau y mae eraill wedi trosglwyddo

**1. Cefnogaeth** → 1. Nid ydynt wedi derbyn y gefnogaeth a addawyd iddynt ac a ddisgwyliwyd ganddynt

**2. Profiad** → 2. Tanamcangyfrif eu sgiliau a'u profiad

**3. Cael eu gwerthfawrogi** → 3. Ddim yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi

**4. Defnyddio** → 4. Heb fynd atynt ar gyfer lleoliadau a defnyddio'r lleoedd gwag oedd ar gael iddynt

**5. Pwysau** → 5. Dan bwysau i ofalu am blant a oedd yn bariadau amhriodol

**6. Lwfansau** → 6. Ddim yn derbyn ffi cadw pan fyddant ar gael i faethu ac na leolir plentyn gyda nhw

**Gweithio gyda'n gilydd i greu dyfodol gwell i blant lleol**

# Sut i drosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe

Ein nod yw gwneud y broses drosglwyddo mor syml â phosibl wrth symud o'ch asiantaeth faethu bresennol atom ni. O'n sgwrs gychwynnol byddwn yn siarad yn agored â chi am sut mae'r broses yn mynd i weithio i chi.

Gan eich bod eisoes yn ofalwr maeth, bydd y broses yn benodol i chi. Byddwn yn gweithio gyda chi o'r cychwyn cyntaf i wybod sut y gallwn eich cefnogi orau wrth symud ymlaen, nodi unrhyw anghenion sydd gennych, a sicrhau ein bod yn eich adnabod yn iawn ar gyfer paru yn y dyfodol. Bydd pob cam o'r broses drosglwyddo yn unigryw i chi ac yn ddibynnol ar gyfer pwy rydych chi'n maethu, a oes plant gyda chi ar hyn o bryd, a pha mor bell yn ôl y cwblhawyd eich asesiad Ffurflen F gwreiddiol.

Mae gennym lawer o brofiad o'r broses drosglwyddo, felly rydym yn ymwybodol o'r peryglon posibl a gallwn achub y blaen ar yr hyn a allai arafu'r broses. Rydym bellach wedi dysgu sut i wneud hyn mor ddi-dor â phosibl a byddwch yn cael eich diweddaru ar hyd pob cam o'r ffordd.



# Y broses

| | Rwy’n maethu i awdurdod lleol | Rwy’n maethu i asiantaeth faethu annibynnol |
|---|---|---|
| **Llwybr 1 - dim plentyn wedi’i leoli gyda chi ar hyn o bryd** | **Cam 1 - Trafodwch**<br>Trafodwch hyn gyda thîm Maethu Cymru Abertawe. Mae eich cefnogi chi’n cychwyn yma. Byddwn yn dod i wybod pam eich bod am drosglwyddo i ni, trafod unrhyw faterion neu bryderon cyfredol sydd gennych gyda’ch awdurdod lleol cyfredol, a’r hyn yr hoffech ei ennill o drosglwyddo atom ni. Byddwn yn cymryd rhai manylion amdanoch ac yn trefnu ymweliad cartref gydag un o’n gweithwyr cymdeithasol.<br><br>**Cam 2 - Penderfynu trosglwyddo**<br>Wedi i ni gwrdd â chi a’ch bod wedi gwneud y penderfyniad i drosglwyddo, dyma pryd y byddem yn disgwyl ichi adael i’ch awdurdod lleol wybod eich bod wedi gwneud cais i faethu gyda ni a’ch bod yn bwriadu ymddiswyddo. Rhaid iddo fod yn glir nad ydych yn ymddiswyddo eto ond eich bod yn bwriadu gwneud hynny ar ôl cwblhau eich asesiad gyda ni.<br><br>**Cam 3 – Asesiad wedi’i dderbyn**<br>Ar ôl i ni dderbyn eich cais, byddwch wedyn yn cwrdd â’ch gweithiwr cymdeithasol asesu, a fydd gyda chi trwy gydol eich proses asesu. Bydd angen i chi hefyd fynychu ein hyfforddiant ‘Sgiliau i Faethu’, er y gall eich asesiad ddechrau cyn i chi fynychu’r hyfforddiant er mwyn atal unrhyw oedi.<br><br>Mae’r rheoliadau’n golygu bod yn rhaid i ni gynnal Ffurflen F newydd ar eich cyfer, ond os ydych chi’n maethu ar gyfer awdurdod lleol, gallwn yn hawdd gael gafael ar eich asesiad Ffurflen F blaenorol sy’n golygu na fydd y broses yn cymryd cyhyd ag y gwnaeth yn wreiddiol. Bydd cael mynediad hawdd i’ch Ffurflen F yn help mawr i gynorthwyo’r sesiynau gyda’ch gweithiwr cymdeithasol sy’n asesu a chipio eich profiad maethu hyd yn hyn a datblygiad a chefnogaeth barhaus. Ar yr adeg hon, byddwn yn gofyn am eirda gan yr awdurdod lleol.<br><br>**Cam 4 - Penderfyniad terfynol**<br>Unwaith y bydd ein hasesiad wedi’i gwblhau, byddwch yn gallu rhoi rhybudd ymddiswyddo o 28 diwrnod i’ch awdurdod lleol. Cyflwynir yr asesiad i’n panel maethu. | **Cam 1 - Trafodwch**<br>Trafodwch hyn gyda thîm Maethu Cymru Abertawe. Mae eich cefnogi chi’n cychwyn yma. Byddwn yn dod i wybod pam eich bod am drosglwyddo i ni, trafod unrhyw faterion neu bryderon cyfredol sydd gennych gyda’ch asiantaeth cyfredol, a’r hyn yr hoffech ei ennill o drosglwyddo atom ni. Byddwn yn cymryd rhai manylion amdanoch ac yn trefnu ymweliad cartref gydag un o’n gweithwyr cymdeithasol.<br><br>**Cam 2 - Penderfynu trosglwyddo/asesiad wedi’i dderbyn**<br>Ar ôl i chi benderfynu trosglwyddo a’n bod wedi derbyn eich cais, byddwch wedyn yn cwrdd â’ch gweithiwr cymdeithasol asesu, a fydd gyda chi trwy gydol eich proses asesu.<br><br>Bydd angen i chi hefyd fynychu ein hyfforddiant ‘Sgiliau i Faethu’, er y gall eich asesiad ddechrau cyn i chi fynychu’r hyfforddiant er mwyn atal unrhyw oedi.<br><br>Ar ôl i chi gwblhau’r hyfforddiant, dyma pryd y byddem yn eich cynghori i roi gwybod i’ch asiantaeth faethu annibynnol eich bod wedi gwneud cais i faethu gyda ni ac rydych yn bwriadu ymddiswyddo. Rhaid ei bod yn glir nad ydych yn ymddiswyddo eto ond eich bod yn bwriadu gwneud hynny ar ôl cwblhau eich asesiad gyda ni.<br><br>Mae’r rheoliadau’n golygu bod yn rhaid i ni gynnal asesiad Ffurflen F newydd i chi. Os yw’r Asiantaeth Maethu Annibynnol rydych chi’n maethu gyda hi yn cytuno i rannu’ch Ffurflen F gyda ni yna bydd hyn o gymorth mawr gyda’r amserlenni. Bydd cael mynediad hawdd i’ch Ffurflen F yn help mawr i gynorthwyo’r sesiynau gyda’ch gweithiwr cymdeithasol sy’n asesu ac yn dal eich profiad maethu hyd yn hyn a datblygiad a chefnogaeth barhaus. Ar y cam hwn, byddwn yn gofyn am eirda gan eich asiantaeth.<br><br>Fodd bynnag, lle byddant yn penderfynu na fyddant yn anfon copi atom, bydd yn rhaid inni ddechrau o’r dechrau. Lle mae hyn yn wir, byddwn yn blaenoriaethu’ch cais ac yn gweithio’n galed i gyflymu’r asesiad.<br><br>**Cam 3 - Penderfyniad terfynol**<br>Unwaith y bydd ein hasesiad wedi’i gwblhau, byddwch yn gallu rhoi rhybudd ymddiswyddo o 28 diwrnod i’ch asiantaeth. Cyflwynir yr asesiad i’n panel maethu. |

# Y broses

| | **Rwy'n maethu i awdurdod lleol** | **Rwy'n maethu i asiantaeth faethu annibynnol** |
|---|---|---|
| **Llwybr 2 - plentyn wedi'i leoli gyda chi ar hyn o bryd** | **Camau 1 a 2**<br>Mae'r ddau gam cyntaf yr un fath â Llwybr 1. Fodd bynnag, pan fydd yr asiantaeth yn derbyn eich bwriad i ymddiswyddo, byddant yn sicrhau bod swyddog adolygu annibynnol y plentyn yn cael gwybod am y newid a fwriadwyd. Yna bydd angen iddynt gynnal cyfarfod cyn pen 28 diwrnod, yn cynnwys yr holl bartïon perthnasol - chi'ch hun, yr awdurdod lleoli, eich asiantaeth bresennol a ni. Mae hyn yn aml yn syml iawn os yw'r plentyn eisoes yng ngofal yr awdurdod lleol rydych chi'n trosglwyddo iddo.<br><br>**Cyfarfodydd**<br>Byddant yn ystyried:<br>• Anghenion y plentyn/plant, gan sicrhau eu bod yn parhau i gael eu diwallu a bod eu cynllun gofal yn cael ei drafod gyda ni fel eich gwasanaeth maethu newydd.<br>• Anghenion cymorth y plentyn maeth a chi fel y gofalwr maeth, a sut y bydd yn cael ei ddarparu gennym ni.<br>• Yr amgylchiadau pan all Maethu Cymru Abertawe ddefnyddio unrhyw le gwag arall ar ôl i'ch trosglwyddiad gael ei gwblhau.<br><br>**Camau 3 a 4**<br>I gyd-fynd â'r cyfarfod, byddwch yn parhau â'r broses asesu ac yn parhau gyda chamau tri a phedwar o Lwybr 1. | **Cam 1**<br>Mae'r ddau gam cyntaf yr un peth â Llwybr 1.<br><br>**Cam 2**<br>Mae hyn yr un peth â Llwybr 1, fodd bynnag, pan fydd yr asiantaeth yn derbyn eich bwriad i ymddiswyddo, byddant yn sicrhau bod swyddog adolygu annibynnol y plentyn yn cael gwybod am y newid a fwriadwyd. Yna bydd angen iddynt gynnal cyfarfod cyn pen 28 diwrnod, yn cynnwys yr holl bartïon perthnasol - chi'ch hun, yr awdurdod lleoli, eich asiantaeth bresennol a ni. Mae hyn yn aml yn syml iawn os yw'r plentyn eisoes yng ngofal yr awdurdod lleol rydych chi'n trosglwyddo iddo.<br><br>**Cyfarfodydd**<br>Byddant yn ystyried:<br>• Anghenion y plentyn/plant, gan sicrhau eu bod yn parhau i gael eu diwallu a bod eu cynllun gofal yn cael ei drafod gyda ni fel eich gwasanaeth maethu newydd.<br>• Anghenion cymorth y plentyn maeth a chi fel y gofalwr maeth, a sut y bydd yn cael ei ddarparu gennym ni.<br>• Yr amgylchiadau pan all Maethu Cymru Abertawe ddefnyddio unrhyw le gwag arall ar ôl i'ch trosglwyddiad gael ei gwblhau.<br><br>**Cam 4**<br>Mae hyn yr un peth â Llwybr 1. |

**Gweithio gyda'n gilydd i greu dyfodol gwell i blant lleol**

# Cwestiynau Cyffredin

**Oes rhaid i mi gael asesiad ffurfiol i drosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe?**
Oes, ond dylai fod yn broses gyflymach na'ch cais cyntaf fel gofalwr maeth newydd. Bydd angen eich Ffurflen F wreiddiol arnom (gan eich darparwr cyfredol) a byddwn yn mynd drwyddi gyda chi. Byddwch hefyd yn cael y gwiriadau arferol, fel gwiriad iechyd a chyllid. Bydd eich cais i drosglwyddo yn mynd i'n panel maethu i'w gymeradwyo.

**A oes angen profiad maethu arnaf i drosglwyddo i Maethu Cymru Abertawe?**
Os ydych chi'n ofalwr maeth cymeradwy gydag awdurdod lleol arall neu asiantaeth faethu, ond heb faethu plentyn gyda nhw eto, gallwch chi drosglwyddo i ni o hyd. Rydym yn gwerthfawrogi gofalwyr maeth profiadol sydd eisiau trosglwyddo a'r rhai sydd eisoes yn gofalu am ein plant. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gwerthfawrogi'r rhai sydd newydd gychwyn ar eu taith maethu ac eisoes wedi'ch asesu a darparu tystiolaeth o'ch gallu i faethu yn eich Ffurflen F gyntaf. Rydym yn deall nad yw realiti maethu gydag asiantaeth bob amser yr un fath â phan fyddwch chi'n gwneud cais am y tro cyntaf.

Yn Maethu Cymru Abertawe rydym yn eich trin fel pobl go iawn ag anghenion cymorth unigol ac arbenigedd. Mae hyn yn caniatáu inni wybod pa bariad allai weithio'n dda gyda chi a pha gefnogaeth neu gyfleoedd dysgu y mae angen i ni eu darparu i chi fel y gallwch fod â'r hyder i gefnogi plentyn orau.

**Alla i drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol Abertawe?**
Gallwch. Byddem yn annog hyn yn weithredol. Mae'ch plentyn eisoes yn cael cefnogaeth ei weithiwr cymdeithasol sy'n cael ei gyflogi gan Gyngor Abertawe ac yn rhan o'r un adran â Maethu Cymru Abertawe. Fel eu gofalwr maeth chi yw'r rôl allweddol yn y tîm o amgylch eich plentyn ac, yn ein profiad ni, mae sicrhau eich bod chi'n gweithio'n fewnol gyda gweddill y tîm yn gwella'r canlyniadau i blant.

**Alla i drosglwyddo os wyf eisoes yn maethu plentyn gydag awdurdod lleol arall?**
Gallwch. Y brif flaenoriaeth yn ystod trosglwyddiad yw lles y plentyn. Bydd angen i ni gwrdd â chi, gweithiwr cymdeithasol y plentyn ac IRO, a'ch awdurdod lleol cyfredol i drafod y cynllun gofal parhaus ar gyfer y plentyn. Bydd y cyfarfod hwn yn archwilio unrhyw effaith bosibl ac os yw er budd pennaf y plentyn i aros yn eich gofal wrth ichi symud i awdurdod lleol arall. Rydyn ni'n hoffi cadw deialog agored gyda chi a'ch awdurdod lleol presennol, felly byddai'n dda trafod eich symudiad gyda nhw hefyd.

**Faint o amser y bydd yn ei gymryd i drosglwyddo i asiantaeth faeth arall?**
Rydym yn gwerthfawrogi eich bod eisoes wedi'ch cymeradwyo i faethu ac na fyddwch am i'r broses fod yn hir felly rydym yn gwneud pob ymdrech i gymeradwyo eich trosglwyddiad gofalwr maeth cyn gynted â phosibl. Mae'r broses ymgeisio ar gyfer trosglwyddo yn gyflymach ac yn symlach na phe byddech chi'n newydd i faethu, a'n nod yw eich bod chi wedi'ch cymeradwyo o fewn graddfa amser llawer byrrach na Ffurflen F sef asesiad newydd i faethu.

# Siaradwch â ni am ymuno â thîm Maethu Cymru Abertawe!

Os ydych chi'n ystyried symud i Maethu Cymru Abertawe dewch i siarad â ni, mae'r sgwrs gychwynnol hon rhyngoch chi a ni yn unig.

Rydyn ni'n symud mwy a mwy o ofalwyr maeth yn fewnol, felly gallwn ddeall eich rhesymau dros ystyried y symud a sut orau rydyn ni'n eich cefnogi chi trwy'r broses drosglwyddo.

Eich penderfyniad chi yn llwyr yw penderfynu trosglwyddo, ond mae'n bwysig bod gennych yr holl ffeithiau i lywio'ch penderfyniad.

Am drafodaethau cychwynnol a sgwrs anffurfiol, cysylltwch â ni ar **0300 555 0111** neu ewch **www.abertawe.maethucymru.llyw.cymru**





**www.abertawe.maethucymru.llyw.cymru**

**0300 555 0111**

## Gweithio gyda'n gilydd i greu dyfodol gwell i blant lleol

maethu cymru
Abertawe

foster wales
Swansea

Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council